# Llwybr Cadfan– Dydd 7

**Porthmadog i Cricieth**



Yn sgil adeiladu'r Cob newidiodd yr aber gan greu harbwr naturiol dwfn (Porthmadog). Ym 1825 adeiladwyd glanfeydd ac erbyn 1873 roedd dros 116,000 o dunelli o lechi yn cael eu hallforio trwy Borthmadog ar dros fil o longau. Rhagor o wybodaeth

Lleoliadau Stampiau: Cyngar Sant, Borth y Gest. Cynhaearn Sant, Ynyscynhaearn.

Cyfarwyddiadau:

1. Dechreuwch o dafarn 'The Australia', trowch i'r chwith a cherddwch tuag at orsaf betrol Shell (100 metr). Croeswch y ffordd yn fuan iawn ar ôl yr orsaf betrol a cherddwch ar hyd ffrynt yr harbwr tan i chi gyrraedd maes parcio ar ochr yr harbwr (250 metr). Yma, cerddwch ar ochr dde'r adeilad tal sy'n sefyll ar ei ben ei hun rhwng yr harbwr a'r rhes o dai. Dilynwch y lôn hon y tu ôl i'r adeiladau a heibio'r hen chwarel am tua 550 metr.

2. Ar ben y lôn, dilynwch lwybr troed i fyny ac i'r dde, gydag arwyddion ar gyfer Llwybr yr Arfordir (dilynwch arwyddion Llwybr yr Arfordir o nawr ymlaen hyd at bwynt 5). Mae'r llwybr yma'n mynd â chi i Borth y Gest (150 metr). Mae'n arwain allan i ystad dai. Ewch lawr y lôn ganol tan i chi weld yr arwydd llwybr troed yn arwain i lawr gyda rhai rheiliau. Yna gallwch ddewis naill ai dewis cerdded ar hyd y traeth neu ar y llwybr ar y brig, i gyrraedd maes parcio ar ben pellaf y cildraeth.

3. O'r maes parcio, cerddwch rhwng y ddwy res o dai bychan ar y lôn. Mae'r lôn yn gwyro o amgylch yr aber ac mae llwybr troed mawr yn arwain i ffwrdd i'r chwith, gan aros yn baralel i'r dŵr. Cerddwch ar hyd y llwybr yma. (Mae'r eglwys i'r dde yma.) I ddechrau mae'n arwain ar hyd blaen y tai. Cadwch i'r dde wrth y gyffordd gyntaf, yna i'r chwith wrth i'r llwybr fynd y tu ôl i nifer o dai. Cariwch ymlaen ar y prif lwybr am 470 metr, gan gario'n syth ymlaen wrth gyffordd y llwybr troed.



4. Uwchben 'Rose Cottage' trowch i'r dde ar y dreif, yna i'r chwith i gario ymlaen ar y llwybr troed. Wrth gyffordd nesaf y llwybr (200 metr) trowch lawr i'r chwith tuag at Fae Carreg Samson a'r cwrs golff. Ar ôl archwilio'r bae, ewch yn ôl i 'Rose Cottage' (mae yna lwybr anturus sy'n arwain i fyny o Fae Carreg Samson i'r rhai sy'n awyddus i archwilio).

5. Trowch i'r chwith pan fyddwch chi'n dod allan i drac/dreif 'Rose Cottage'. Bydd y llwybr hwn yn mynd â chi i faes carafannau. Cadwch i'r dde ar y trac hwn tan i chi gyrraedd y bin coch ar gyfer carthion ci. Yma, trowch i'r chwith a

cherddwch ar hyd y trac tarmac gan gadw’r pwll a’r maes chwarae ar eich ochr dde. Trowch i’r dde i aros nesaf at y pwll a dilynwch y ffordd i fyny tan i chi weld arwydd llwybr troed syth ymlaen, gan eich arwain i ffwrdd o’r ffordd. Cymerwch y llwybr hwn a dilynwch yr arwyddion llwybr troed trwy’r caeau a’r coetir. Ar ddiwedd y llwybr hwn mae yna garreg a giât mochyn fetel sy’n arwain allan i’r briffordd.

6. Croeswch y ffordd ac ar bwys giatiau’r Fferm Lama mae yna gamfa garreg. Ewch drosti a chadwch y ffens ar y chwith (mae’n bosib y bydd ceffylau yma). Ewch yn eich blaen (ar drac nawr) tan i chi gyrraedd giât fetel dal ar draws y trac. Ewch drwyddi ac yna dros nant fach yn y trac, yna trowch i’r dde a dilynwch y llwybr i fyny’n raddol trwy gaeau agored tan i chi gyrraedd fferm a giât llwybr troed gydag arwyddion.



7. Unwaith i chi fynd trwy’r giât, cadwch y wal ar eich ochr dde (gan basio coeden). Ewch ymlaen rhwng y waliau at ‘draeth’ cerrig â golygfeydd godidog. Ar ddiwedd y llwybr mae giât llwybr troed, ewch drwyddi ac, unwaith eto, cadwch y wal ar y dde. Unwaith i chi basio’r agoriad ar gyfer y giât yn y wal cadwch yn agos at y wal ar y llwybr llai o faint i gyrraedd cornel lle mae pedwar cae yn cwrdd. Ewch drwy giât y llwybr troed a chadwch y wal ar y chwith. Ewch ymlaen heibio cefn bwthyn ac yna trwy’r giât ymlaen i drac.

8. Dilynwch y trac gan basio’r fynedfa i dŷ arall. Ewch ymlaen i lawr y trac a thrwy giât i gyrraedd y briffordd. Trowch i’r chwith ar y ffordd a cherddwch ychydig (tuag at y bont), croeswch y ffordd pan fyddwch chi gyferbyn â’r arhosfan bysiau a chariwch ymlaen i gerdded tuag at y bont. Trowch i’r dde ar y trac graean sy’n mynd o dan y bont, gydag arwydd am Wern. Unwaith i chi fynd o dan y bont, trowch i’r chwith a cherddwch i fyny’r trac graean rhwng y tai.

9. Mae’r trac yn troi’n llwybr ac yn dilyn wal i’r dde trwy goetir cyn dod at fyngalo mawr cerrig gwynion. Cadwch at gefn y byngalo at y dreif/giât ac ymlaen i lôn graean. Trowch i’r chwith ar y lôn ac ewch ymlaen trwy giât ac i mewn i Bentrefelin gan ddod allan ar y briffordd wrth ymyl y gofeb rhyfel.



10. Trowch i’r dde ar y ffordd a chadwch lygad allan ar ochr arall y ffordd am arwydd llwybr troed ac arwydd mawr gwyn Eglwys Sant Cynhaearn. Pan fo’n ddiogel croeswch y ffordd a dilynwch arwyddion yr eglwys ar hyd y lôn a thrwy ddwy giât i gyrraedd yr eglwys.

**Wedi’i hadeiladu ym 1832, mae’r eglwys Gradd II* fach hon wedi aros yn gymharol gyfan ar hyd y blynyddoedd ac mae’r ardal fewnol hanesyddol i’w gweld o hyd, heblaw am gwpl o ffenestri sydd wedi cael eu newid. Yn sefyll ar yr hyn a oedd yn ynys ar un adeg ar Lyn Ystumllyn, sydd bellach wedi’i ddraenio, mae’r eglwys erbyn hyn dan ofal Cyfeillion Eglwysi Digyfaill. Ymhlith y beddi nodedig mae bedd James Spooner, y syrfëwr a adeiladodd Rheilffordd**

## Llwybr Cadfan– Dydd 7

**Ffestiniog, John Ystumllyn, a alwyd hefyd yn Jac Du (Jack Black), David Owen, cyfansoddwr a thelynor dall lleol, yn ogystal ag adeiladwyr llongau a morwyr. Rhagor o wybodaeth**

11. O’r eglwys ewch yn ôl trwy’r giât gyntaf ac yna trowch i’r chwith trwy giât llwybr troed i mewn i gae (mae arwyddion). Cadwch y wal ar eich chwith i gyrraedd y gornel, yna ewch ymlaen ar hyd y wal, gan basio’r agoriad a pharhau i gadw’r wal wrth eich ochr. O’ch blaen fe welwch chi agoriad heb giât. Dilynwch y llwybr glaswelltog trwy hwn, ewch ychydig i’r dde o amgylch twmpath ac yna ewch yn syth ymlaen trwy’r cae a rhwng dau dwmpath caregog ar frig llethr fach. O’r fan hon, rhwng y twmpathau hyn, fe ddylech chi allu gweld o’ch blaenau y giatiau yn arwain ymlaen at y ffordd. Dilynwch y llwybr glaswelltog at y giatiau.

12. Pan fyddwch chi ar y ffordd, trowch i’r chwith ar hyd y ffordd a cherddwch i’r fynedfa gydag arwydd ‘Ystumllyn’. Cerddwch i lawr y trac hwn ac ychydig i’r dde heibio tŷ mawr at grid gwartheg. Dilynwch y trac trwy giât y llwybr troed ac i fyny i’r fferm. Pan gyrhaeddwch chi’r fferm ewch ymlaen rhwng dwy ysgubor fawr a chadwch at y llwybr ar yr ochr arall iddynt, gan gadw’r wal a’r ffens ar y chwith i gyrraedd ochr y cae a dwy giât. Ewch drwy’r giât ar y chwith i’r cae o’ch blaen a dilynwch y llwybr glaswelltog i’r dde ar hyd ffin y cae tan i’r llwybr fynd am i lawr ac i ffwrdd o’r ffens, gan orffen wrth giât y llwybr troed a’r rheilffordd. Trowch i’r dde a dilynwch y llwybr sy’n rhedeg ochr yn ochr â’r rheilffordd i gyrraedd y groesfan (gan ddilyn arwyddion Llwybr yr Arfordir nawr hyd at Gricieth).

13. Croeswch yma a cherddwch ymlaen tan i’r llwybr agor i fyny a rhoi’r opsiwn i gerdded ar hyd y traeth. Yma, gallwch chi naill ai barhau i ddilyn y llwybr ac yna troi i’r chwith i gerdded ar hyd y promenâd neu gallwch chi gerdded ar hyd y traeth.

14. Pan fyddwch chi’n cyrraedd yr orsaf bad achub ar ben pellaf y traeth, ewch i fyny’r ffordd (agosaf at y môr, 60 metr). Wrth y troad i’r dde wrth ymyl y blwch post, gallwch chi naill ai barhau ar y ffordd hon i gyrraedd y castell (100 metr) neu droi i’r dde, mynd dros y rheilffordd ac ychydig i’r chwith i’r briffordd a stryd fawr Cricieth.



**Mae tystiolaeth bod yr ardal o gwmpas Cricieth wedi’i anheddu yn ystod yr Oes Efydd, ac mae siambrau bedd a meini hirion yn bresennol yn yr ardal o hyd. Mae safleoedd eraill ym Mhen Llŷn yn awgrymu bod yr ardal wedi’i threfedigaethu gan don o anheddwyr Celtaidd, a archwiliodd Fôr Iwerddon, tua’r 4ydd ganrif Cyn Crist fwy na thebyg. Adeiladwyd Castell Cricieth gan Llywelyn ab Iorwerth tua 1230 ac yn y blynyddoedd wedi hynny, fe’i defnyddiwyd sawl gwaith fel carchar. Datblygodd y dref yn gyrchfan glan môr Fictoraidd boblogaidd ar ôl 1868 pan adeiladwyd rheilffyrdd Arfordir Cymru.**